# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

**RHAN 2**

SAFONAU

**PENNOD 1**

YMYRRYD YM MATERION RHEDEG YSGOLION A GYNHELIR

*Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru*

**11 Pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd**

(1) Mae gan Weinidogion Cymru bwer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir o dan y Bennod hon os yw is-adran (2), (3), (4) neu (5) yn gymwys.

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) os yw'r awdurdod lleol wedi rhoi hysbysiad rhybuddio o dan adran 3 i gorff llywodraethu'r ysgol,

(b) os yw'r corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio, neu sicrhau cydymffurfedd, â'r hysbysiad er boddhad Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod cydymffurfio, ac

(c) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'r awdurdod lleol wedi cymryd, ac nad yw'n debyg o gymryd, camau digonol at ddibenion ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) os yw Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad rhybuddio o dan adran 10 i gorff llywodraethu'r ysgol, a

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(b) os yw'r corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio, neu sicrhau cydymffurfedd, â'r hysbysiad er boddhad Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod cydymffurfio.

(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu fwy o seiliau 1 i 6 yn bodoli mewn perthynas â'r ysgol a bod ganddynt reswm dros gredu bod risg cysylltiedig i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson a hwnnw'n risg sy'n galw am ymyriad brys o dan y Bennod hon.

(5) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) os yw sail 7 (ysgol y mae arni angen gwelliant sylweddol) neu sail 8 (ysgol y mae arni angen mesurau arbennig) yn bodoli mewn perthynas â'r ysgol, a

(b) os yw cyfnod heb fod yn llai na 10 niwrnod wedi mynd heibio er y dyddiad y rhoes y Prif Arolygydd hysbysiad i Weinidogion Cymru o dan adran 37(2) o Ddeddf Addysg 2005, yn ddarostyngedig i is-adran (6).

(6) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu, mewn perthynas ag ysgol benodol, bod is-adran (5)(b) yn cael effaith fel petai'r cyfeiriad at 10 niwrnod yn cyfeirio at gyfnod byrrach a bennir yn y penderfyniad.

(7) Pan fo gan Weinidogion Cymru bwer i ymyrryd, rhaid iddynt gadw golwg ar yr amgylchiadau a arweiniodd at y pwer.

(8) Os yw Gweinidogion Cymru'n credu bod y seiliau dros ymyrryd wedi eu trin wrth eu bodd, neu na fyddai arfer eu pwerau o dan y Bennod hon yn briodol am unrhyw reswm arall, rhaid iddynt ysgrifennu at y corff llywodraethu a'r awdurdod lleol i'w hysbysu am eu casgliad.

(9) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad o dan is-adran (8) mewn perthynas ag ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, rhaid iddynt anfon copi yr un pryd at—

(a) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(b) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol.

(10) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd yn parhau i gael effaith hyd nes y byddant yn rhoi hysbysiad o dan is-adran (8).

(11) Os oes gan Weinidogion Cymru bwer i ymyrryd, nid ydynt wedi eu cyfyngu i gymryd y camau yr oeddent wedi dweud mewn hysbysiad rhybuddio eu bod â'u bryd ar eu cymryd.